# Syniadau Mawr Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



## Datblygu diwylliant entrepreneuraidd yng Nghymru

Ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid

@SyniadauMawrCym

SyniadauMawrCymru

SyniadauMawr.cymru

Busnes Cymru | Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

**Mae 1 o bob 7 o bobl yng Nghymru yn hunangyflogedig, ond mae ymagwedd greadigol ac entrepreneuraidd at fywyd a gwaith yn hollbwysig beth bynnag y penderfynwch ei wneud.**

Mae angen pobl ifanc â hyder entrepreneuraidd ar Gymru i feddwl yn greadigol, sylwi ar gyfleoedd a chymryd camau i greu cyfoeth ar gyfer eu hunain ac eraill.

Drwy'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant o fenter yng Nghymru. Mae'n helpu pobl ifanc rhwng 5 a 25 oed i ddeall gwerth agwedd entrepreneuraidd, eu hysbrydoli i ystyried syniadau, ac efallai dechrau ei busnesau eu hunain.

I wneud hyn, rydym yn gweithio gyda phobl ifanc, busnesau a phartneriaid ieuenctid a chymunedol er mwyn:

- Gwella dyheadau a dealltwriaeth o entrepreneuriaeth
- Datblygu sgiliau ac agweddau entrepreneuraidd drwy brofiadau ymarferol
- Amlygu a meithrin entrepreneuriaid y dyfodol, gwella eu dealltwriaeth a chreu rhwydwaith o bobl ifanc sydd â diddordeb mewn dechrau busnes
- Helpu entrepreneuriaid ifanc i wireddu eu potensial
- Ymgysylltu â busnesau, yn enwedig entrepreneuriaid yng Nghymru, er mwyn eu hannog i rannu eu harbenigedd
- Galluogi'r sector addysg bellach ac uwch yng Nghymru i arwain yr agenda entrepreneuriaeth a chynorthwyo myfyrwyr i fentro.

# Ein gwaith gyda phartneriaid

Mae Syniadau Mawr Cymru yn rhan o rwydwaith eang o sefydliadau partner, addysgwyr a busnesau sy'n ysbrydoli ac yn annog pobl ifanc i lwyddo wrth ddysgu a mentro ym myd busnes.

Mae ein Cyfnewidfa Entrepreneuriaeth yn cydweithio â nhw i geisio datblygu arferion entrepreneuraidd yng Nghymru, annog partneriaethau a chydweithio'n rhan o **#CreuSbarc**. Rydyn ni'n helpu rhanddeiliaid i gyfrannu at ddatblygu eco-system entrepreneuraidd o'r radd flaenaf yng Nghymru.

Mae 'Ardal y Partneriaid' yn **www.SyniadauMawr.cymru** yn rhoi manylion am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth a sut i gymryd rhan.

# Ein Hyrwyddwyr Entrepreneuriaeth

Mae ein rhaglen grantiau ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru yn galluogi sefydliadau i ddatblygu eu strategaeth a'u hymagwedd eu hunain wrth gynnal gweithgareddau entrepreneuriaeth drwy rôl yr Hyrwyddwyr Entrepreneuriaeth.

Drwy gymryd rhan yn ein rhwydwaith o hyrwyddwyr, mae pob coleg a phrifysgol yn:

- Codi ymwybyddiaeth myfyrwyr yn ystod sesiwn sefydlu, ac o'r adeg maen nhw'n lasfyfyrwyr nes iddyn nhw raddio
- Rhoi profiadau menter ymarferol i ddatblygu sgiliau'r myfyrwyr
- Helpu i amlygu myfyrwyr sydd â diddordeb mewn dechrau busnes, a gweithio gyda nhw
- Rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ac entrepreneuriaid ifanc rwydweithio
- Hwyluso partneriaid i weithio gyda sefydliadau
- Gwybod pwy yw pwy er mwyn cefnogi pobl ifanc entrepreneuraidd a'u cyfeirio at arbenigwyr fydd yn gallu eu helpu.

Mae gwaith yr hyrwyddwyr yn rhan o gefnogaeth ehangach y sefydliad ym maes menter a chyflogadwyedd.








# Ein Modelau Rôl

Entrepreneuriaid sydd yn y sefyllfa orau i ysbrydoli ac annog entrepreneuriaid y dyfodol yng Nghymru. Mae gennym rwydwaith gref o 'Fodelau Rôl' busnes sy'n gallu cyfleu orau y cyffro sy'n gysylltiedig â datblygu syniadau a rhedeg eu busnes eu hunain.

Gan eu bod yn deall faint o waith caled a pha mor benderfynol y mae'n rhaid bod er mwyn llwyddo, maen nhw'n herio pobl ifanc i feddwl yn greadigol ac yn rhannu'r uchafbwyntiau a'r heriau i helpu pobl ifanc i ystyried gweithio iddyn nhw eu hunain.





*"Mae annog pobl ifanc i feddwl yn wahanol am beth maen nhw am ei gyflawni mewn bywyd, a gallu helpu'r rhai sydd â syniad busnes i lwyddo, yn rhywbeth gwerth chweil."*

Drwy rannu eu hanesion personol, mae ein Modelau Rôl yn:

- Ysbrydoli pobl ifanc i feddwl am eu dyheadau
- Herio rhai rhagdybiaethau ynghylch dechrau busnes
- Rhannu profiad gwerthfawr ac awgrymiadau ynghylch sut i ddechrau busnes
- Rhoi gwasanaeth mentora gwych i ddarpar entrepreneuriaid.

Mae ein modelau rôl yn chwarae rhan hollbwysig wrth gyflwyno ein rhaglen a'n huchelgais ar gyfer Cymru. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phob rhanbarth yng Nghymru er mwyn iddyn nhw gefnogi eu sectorau yn unol â'r cryfderau a'r cyfleoedd sydd ar gael. Rydyn ni hefyd yn croesawu perchnogion busnes deinamig sydd â diddordeb mewn ategu hyn drwy ymuno â'r rhwydwaith a chefnogi ein pobl ifanc ledled Cymru.

Mae **385** o fodelau rôl yn ysbrydoli dros **55,000** o bobl ifanc bob blwyddyn

# Ein gweithdai a'n digwyddiadau

Yn yr ysgolion, mae ein modelau rôl yn cynnal **'Gweithdai Ysbrydoledig'** ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9 – Blwyddyn 11 sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn rhoi syniad iddyn nhw beth sydd ei angen i fod yn entrepreneur llwyddiannus. Cynhelir y gweithdai awr o hyd mewn ystafelloedd dosbarth ac maen nhw'n rhoi'r cyfle i ddisgyblion feddwl yn greadigol am eu dyfodol a'u syniadau busnes.

Rydyn ni'n cynnal gweithdy **'Ystyried Syniadau Mawr'** ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed yn yr ysgol, coleg, brifysgol, neu gyda grwpiau ieuenctid a chymunedol, er mwyn datblygu eu dyheadau menter. Mae'r gweithdy yma (sydd fel arfer yn awr neu'n ddwy awr o hyd) yn cynnig cyfle i ddysgu ar sail profiad, rhannu syniadau gydag entreupreneuriaid, a deall rhagor am yr ystyriaethau ymarferol sy'n gysylltiedig â dechrau busnes. Mae'r sesiwn yn helpu'r bobl ifanc i greu syniadau ar gyfer busnes a llunio cynllun gweithredu er mwyn datblygu eu syniad.

Gallwn addasu gweithdai'r modelau rôl a chefnogi digwyddiadau gan bartneriaid i gyd-fynd ag anghenion y rhai sy'n cymryd rhan. Gall hyn gynnwys cefnogi rhannau o'r cwricwlwm fel Bagloriaeth Cymru neu gynnig model rôl ar gyfer sector penodol er mwyn cynyddu hyder mewn maes busnes penodol.







*"Byddwn yn ehangu gorwelion ac yn codi dyheadau pobl drwy greu diwylliant entrepreneuraidd a deinamig a gwneud yn siŵr eu bod yn cael cyfleoedd i dyfu a chyflawni rhagor drwy gydol eu bywydau."*



# Ein cefnogaeth ar gyfer darpar entrepreneuriaid ifanc

Mae pobl ifanc yn fwy awyddus nag erioed i fynd i fyd busnes, ond mae mynd ati o ddifrif i ddechrau busnes yn gam sy'n parhau i ddychryn llawer ohonyn nhw. Nid yw hynny'n syndod o ystyried faint o bethau mae angen eu hystyried... y syniad, cael gafael ar arian, a fydd modd gwerthu digon, yr elfennau cyfreithiol... mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

Mae'r gefnogaeth a gynigir gan Syniadau Mawr Cymru wedi'u teilwra ar gyfer pobl ifanc hyd at 25 oed sy'n ystyried dechrau busnes, ac mae'n cynnig y cyfle iddyn nhw:

- Fagu hyder yn eu syniadau a'u paratoi ar gyfer dechrau busnes
- Siarad ag ymgynghorydd busnes arbenigol am syniadau a chynlluniau ar gyfer busnes
- Dysgu am agweddau ar fusnes, o farchnata i gyllid, prisio i eiddo deallusol, drwy weithdai a digwyddiadau
- Cael gafael ar wybodaeth am sectorau penodol a modiwlau busnes ar-lein
- Ymuno â rhwydwaith o entrepreneuriaid ifanc tebyg
- Siarad â modelau rôl a rhannu eu harbenigedd.

I gymryd rhan, rydym yn gweithio gyda nifer o sefydliadau partner i roi'r gefnogaeth, ond gall cleientiaid gysylltu â ni'n uniongyrchol hefyd er mwyn:

1. Cofrestru eu diddordeb ar SyniadauMawr.cymru – i gael cylchlythyrau, ein harweiniad am sut i ddechrau busnes a chael gafael ar gymorth ar-lein i'w helpu i feddwl am yniadau busnes.
2. Siarad â'n cynghorwyr pwrpasol ar gyfer entrepreneuriaid ifanc; bydd y rhain yn gofyn ychydig o gwestiynau er mwyn deall eich anghenion, siarad am bryderon a helpu i lunio cynllun gweithredu ar gyfer y camau nesaf.
3. Cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithdai sy'n cael eu rhestru ar y wefan.
4. Bod yn rhan o brofiad y Bwtcamp i Fusnes.

**Mae'r Bwtcamp i Fusnes** yn nodi'r bobl ifanc 18-25 oed sydd â'r doniau, y cymhelliant a'r ymrwymiad i lwyddo gyda'u busnes cyn gynted â phosibl. Drwy weithio gyda phartneriaid, gallwn addasu digwyddiadau busnes a chymorth i gyd-fynd ag anghenion y cleient a rhaglenni busnes presennol. Gall cynghorwyr busnes weithio gyda phobl ifanc mewn mannau anffurfiol fel mewn caffi neu yn eu coleg neu brifysgol.

Mae'n agored i unigolion brwdfrydig. Os ydyn nhw'n bodloni'r meini prawf, maen nhw'n cael eu gwahodd i fwtcamp preswyl a gynhelir dros ddau benwythnos yn ystod y flwyddyn.

Yn y Bwtcamp, rydyn ni'n cefnogi pob agwedd ar fodel busnes ac yn cynyddu hyder pobl ifanc ym meysydd marchnata, arian a chynllunio busnes. Mae'n brofiad unigryw lle gall pobl ifanc gwrdd ag entrepreneuriaid a gweithio gyda'n cynghorwyr busnes i greu cynllun gweithredu er mwyn datblygu eu syniadau busnes.

Ar ôl y Bwtcamp, mae'r rhai a gymerodd ran yn cael cyfarfodydd gyda Modelau Rôl ac entrepreneuriaid eraill i barhau ar eu taith.










*"Roedd Bwtcamp yn anhygoel! Cawson ni ein trochi'n llwyr mewn dysgu, rhannu syniadau gyda'n gilydd, y modelau rôl a'r holl gynghorwyr. Fe wnaethon nhw ein hannog i feddwl o ddifrif am beth oedd angen i mi ei wneud i ddatblygu fy musnes."*

# Ein cystadlaethau

I ddathlu mentrau gwych a llwyddiannau ein hentrepreneuriaid ieuengaf, mae ganddon ni ddwy gystadleuaeth i hyrwyddo doniau yng Nghymru:

## Cystadleuaeth Genedlaethol i Ysgolion Cynradd

*Y Criw Mentrus*

Y CRIW Mentrus
Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Mae'r gystadleuaeth flynyddol i ysgolion cynradd yn meithrin ysbryd entrepreneuriaeth gyda'n dysgwyr ieuengaf ledled y wlad.

Mae'r Criw Mentrus yn dangos llwyddiannau busnes plant ein hysgolion cynradd. Mae hefyd yn cynnig llwyfan er mwyn rhannu eu gweithgareddau busnes ac yn dangos cysylltiadau gyda'u cymuned fusnes leol. Ar sail model sgiliau ACRO (Agwedd, Creadigrwydd, Cysylltiadau a Threfn), mae'r Criw Mentrus yn cynnig deunyddiau dysgu i helpu i gyflwyno menter yn yr ystafell ddosbarth. Y nod yw datblygu sgiliau fel gweithio mewn tîm a chreadigrwydd, ochr yn ochr â galluogi disgyblion i gymhwyso eu sgiliau digidol, llythrennedd a rhifedd mewn ffordd ymarferol. Drwy gystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol, mae disgyblion yn rhannu beth maen nhw wedi'i ddysgu a'u cymhelliant ar gyfer eu busnes.

## Cystadleuaeth Menter Genedlaethol

*Dathlu Syniadau Mawr*

DATHLU!
Syniadau Mawr
Cymru

Mae Dathlu Syniadau Mawr yn arddangosfa o'r gwaith creadigol ac arloesol sy'n digwydd ym maes menter yng Nghymru. Mae hefyd yn gwobrwyo ac yn rhoi sylw haeddiannol i entrepreneuriaid ifanc a dawnus ein cenedl. Mae croeso i entrepreneuriaid ifanc neu dimau menter rhwng 16-25 oed gymryd rhan yn y gystadleuaeth. Ar sail eu ceisiadau, bydd ein beirniaid yn gallu asesu eu syniadau, eu cynnydd a'u hangerdd at fusnes. Mae'r rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn cael eu gwahodd i ddigwyddiad blynyddol i ddangos eu syniad. Maen nhw hefyd yn dysgu gan ein hentrepreneuriaid ac yn cael eu herio ganddyn nhw; cymryd rhan mewn gweithdai; trafod syniadau gyda chyfoedion a chynghorwyr busnes; yn ogystal â dathlu eu cyflawniadau.

Caiff enillwyr y gystadleuaeth sylw yn y cyfryngau er mwyn codi eu proffil busnes a chael gwobrau gan ein partneriaid busnes.

# Ein perthynas gyda Busnes Cymru

Busnes Cymru yw gwasanaeth cymorth busnes Llywodraeth Cymru. Mae'n rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i fusnesau yng Nghymru a darpar entrepreneuriaid er mwyn eu helpu i ddechrau a thyfu eu busnesau.

Mae Busnes Cymru yn cynnig un pwynt cyswllt lle gall busnesau ac entrepreneuriaid gael cyngor a chymorth gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae modd cael gafael ar y gwasanaeth dros y ffôn, ar-lein a thrwy rwydwaith o ganolfannau ledled Cymru.

Mae Syniadau Mawr Cymru yn rhan o wasanaeth Busnes Cymru.

Mae hyn yn golygu ein bod yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc symud ymlaen yn ddidrafferth wedi iddyn nhw ddechrau masnachu fel bod cymorth busnes ehangach ar gael ar eu cyfer ledled Cymru.


I gael gwybod rhagor am y cymorth sydd ar gael drwy wasanaeth Busnes Cymru, ewch i **www.businesswales.gov.wales** neu ffoniwch y llinell gymorth – **03000 6 03000**.

Mae

**70%**

o bobl ifanc o dan 25 oed yn dweud yr hoffen nhw weithio iddyn nhw eu hunain

*Arolwg Omnibws Cymru 2016*



Busnes Cymru | Business Wales

# Cymerwch ran

I ofyn cwestiwn i ni a chael rhagor o wybodaeth, gallwch gysylltu â ni ar-lein, naill ai yn **SyniadauMawr.Cymru** neu **@SyniadauMawr.Cymru** ar Twitter. Gallwch hefyd gysylltu â'n tîm yn Llywodraeth Cymru drwy ebostio **bigideas@gov.wales**

Mae ein swyddogion gweithredol rhanbarthol yn gweithio gyda phartneriaid ac addysgwyr i wneud yn siŵr bod model rôl addas yn dod draw i gydweithio ag amrywiaeth o bobl ifanc sy'n gallu elwa ar gael cymorth gan Syniadau Mawr Cymru. Gallwch gysylltu â'n swyddogion gweithredol rhanbarthol sy'n gweithio ledled Cymru – **enquiries@bigideas.com**

Dylai pobl ifanc sydd am gael cymorth gan Syniadau Mawr Cymru fynd i **www.syniadaumawr.cymru**. Dylen nhw hefyd gofrestru i gael ein cylchlythyr sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am newyddion, digwyddiadau a chyfleoedd i gymryd rhan.

# Big Ideas Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



## Developing an entrepreneurial culture in Wales

Inspiring the next generation of entrepreneurs

@BigIdeasWales
BigIdeasWales
BigIdeas.wales

Busnes Cymru | Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

**Whilst 1 in 7 people in Wales are self employed, having a creative and entrepreneurial approach to life and work is crucial whatever you choose to do.**

Wales needs young people emerging with an entrepreneurial confidence to think creatively, spot opportunities and take action to create wealth for themselves and others.

Through the Youth Entrepreneurship Strategy, the Welsh Government is committed to developing a spirit of enterprise in Wales. Helping young people aged 5-25 understand the value of an entrepreneurial attitude, to be inspired to explore ideas and potentially launch their own business.

To do this we work with young people, business, educators and youth and community partners to:

- Raise aspirations and understanding of entrepreneurship
- Develop entrepreneurial skills and attitudes through practical experiences
- Identify and nurture our future entrepreneurs, developing their knowledge and building a network of young people interested in business start-up
- Support young entrepreneurs to reach their potential
- Engage business, particularly Wales' entrepreneurs to share their expertise
- Empower the Further and Higher Education Sector in Wales to drive the entrepreneurship agenda and support student enterprise.

## Our work with partners

Big Ideas Wales is part of a wide network of partner organisations, educators and businesses who inspire and encourage young people succeed in their learning and enterprise.

Our Entrepreneurship Exchange service works with them to support the development of entrepreneurship practices in Wales, encouraging partnership engagement and collaboration as part of **#BeTheSpark**. We support stakeholders to play their part to develop a world-class entrepreneurial eco-system in Wales.

Our 'Partner Area' at **www.BigIdeas.wales** provides details of partner opportunities and how to get involved.

## Our Champions of Entrepreneurship

Our programme of grant funding to the Further and Higher Education sector in Wales enables the institutions to develop their own strategy and approach to delivering entrepreneurship activity, through the role of the Entrepreneurship Champions (EC's).

All Colleges and Universities participate and through our network of champions:

- Raise awareness with for students during induction, from fresher's to graduation
- Provide practical enterprise experiences to develop student's skills
- Help identify and work with students interested in starting a business
- Provide networking opportunities for students and young entrepreneurs
- Facilitate partners to work with the institutions
- Know who's who to support youth entrepreneurship and provide access to experts in entrepreneurship education.

The work of the Champions is part of their wider enterprise and employability provision offered by the institution.






# Our Role Models

Entrepreneurs are best placed to inspire and encourage future entrepreneurs in Wales. We have a strong network of trained business "Role Models" who can best convey the exhilaration of taking ideas forward to start and run their own business.

Understanding the hard work and determination needed to succeed, they challenge young people to think creatively, sharing the highs and challenges to help young people consider how to become their own boss.





*"To get young people thinking differently about what they want to achieve in life and being able to help those who have a spark of a business idea take off is hugely rewarding."*

In sharing their personal story our Role Models:

- Inspire young people to think about their own ambitions
- Challenge some pre-conceptions about starting a business
- Share valuable experience and tips on how to start a business
- Provide great mentors for budding entrepreneurs.

Our role models play a crucial part in delivering our programme and ambition for Wales. We are committed to working with each of the regions in Wales to support its own sectors according to the strengths and opportunities available and welcome interest from dynamic business owners who are interested in reflecting this by joining the network and supporting our young people across Wales.

**385** role models inspire over **55,000** young people every year

# Our workshops and events

Within schools, our Role Models deliver **'Inspirational Workshops'** to pupils from Year 9 – Year 11 that raise awareness and give young people a flavour of what it takes to be a successful entrepreneur. In classroom groups for an hour (or class length) these engaging workshops allow pupils to think creatively about their own futures and business ideas.

For young people aged 16-24, at school, college, university or with youth and community groups, we want to build on their aspirations for enterprise and deliver an **'Exploring Big Ideas'** workshop. This workshop (usually 1 or 2 hours), provides more experiential learning to build confidence, share their ideas with entrepreneurs and understand more of the practicalities of starting a business. The session helps participa generate ideas for business and create an actic plan to take their idea forward.

We can tailor the role model workshops and support partner events to suit the needs of the participants, whether that is supporting curriculum areas such as the Welsh Baccalaureate or providing a sector specific role model to build confidence in a particular theme of business.









*"We will widen people's horizons and lift their aspirations by creating a dynamic, entrepreneurial culture and ensuring they have opportunities to grow and achieve more throughout their lives."*

# Our support for aspiring young entrepreneurs

Young people's aspiration to start a business has never been higher yet many still find the decision to actually start a business rather daunting. That's not surprising with so much to consider... the idea, accessing finance, generating enough sales, the legalities… the list goes on.

The support offered by Big Ideas Wales is tailored for young people 25 and under who are considering starting a business and provides the opportunity to:

- Build confidence in their ideas and prepare for business start up
- Talk to an expert business adviser about ideas and plans for business
- Learn about aspects of business from marketing to finance, pricing to IP through workshops and events
- Access sector specific information and online business learning modules
- Join a network of like minded young entrepreneurs
- Talk to Role Models and share their expertise.

To get involved, we work with a number of partner organisations to deliver the support but clients can also contact us directly to:

1. Register interest on **BigIdeas.wales** – to receive newsletters, our guide to starting a business and access online support to help them think through business ideas.
2. Talk to our dedicated advisers for young entrepreneurs; who will undertake a short diagnostic to understand needs, talk through areas of concern and help build an action plan for the next steps.
3. Take part in events and workshops which are listed on the website.
4. Be part of the Bootcamp to Business experience.

**Bootcamp to Business** identifies 18-25 year olds who have the talent, drive and commitment to put their business on the fast track to success.

Working with partners we can tailor the business events and support around client's needs and existing business programmes. Business advisers can work with young people somewhere informal like a café or at their college or university.

It is open to motivated individuals, who, if they meet the criteria, are invited to attend a bootcamp residential weekend hosted twice a year.

At Bootcamp we will support every aspect of a business model and build young people's confidence in marketing, finance and business planning. It is a unique experience where young people can meet entrepreneurs and work with our business advisers to create an action plan to take their business ideas forward.

Following the Bootcamp, participants attend meetings with Role Models and other entrepreneurs to continue their journey.










*"Bootcamp was amazing! They totally immersed us in learning, sharing ideas with each other, with the role models and all the advisers. They challenged me to really think through the work I had to do to take my business forward."*

# Our competitions

To celebrate the achievements of fantastic enterprise projects and achievements of our youngest entrepreneurs we have two competitions to elevate talent in Wales:

## National Primary School competition

*Enterprise Troopers*

Enterprise TROOPERS Primary School Competition



This annual competition for primary schools, nurtures the spirit of entrepreneurship with our youngest learners across the country.

Enterprise Troopers showcases the business achievements of our primary school children, a platform to share their enterprise activities and demonstrate links with their local business community. Based on the ACRO skills model (Attitude, Creativity, Relationships and Organisation), Enterprise Troopers provides learning materials to help deliver enterprise in the classroom to develop skills such as teamwork and creativity, whilst enabling pupils to apply their literacy, numeracy and digital skills in a practical way. Through regional and national competitions pupils share their learning and motivation for their business.

## National Enterprise competition

*Big Ideas Celebrated*

Big Ideas Wales CELEBRATED!

Big Ideas Celebrated is a showcase of creative and innovative enterprise activity in Wales, rewarding and highlighting the talented young entrepreneurs of our nation.

This competition is open to young entrepreneurs or enterprise teams aged 16-25, by application to help our judges assess their ideas, progress and passion for business. Finalists are invited to an annual event to showcase their idea; learn from, and be challenged by, our entrepreneurs; engage in workshops; discuss ideas with their peers and business advisers; and celebrate their achievements.

Competition winners are celebrated in the media to raise their business profile and receive prizes from our business partners.

# Our relationship with Business Wales

Business Wales is the Welsh Government's business support service, providing information, advice and support to Welsh businesses and aspiring entrepreneurs to help them start and grow their businesses.


Business Wales offers a single point of contact for businesses and entrepreneurs to advice and support from public, private and voluntary sectors. The service can be accessed by phone, online and through a network of centres located across Wales.

Big Ideas Wales is part of Business Wales. This means that we can ensure a smooth transition for young people once they have started trading to access the wider business support available across Wales.

To find out more about the support available through Business Wales, visit **www.businesswales.gov.wales** or call the Helpline on **03000 6 03000**.

**70%**
**of young people under 25 say they want to be their own boss**

*Beaufort Omnibus Survey 2016*



Busnes Cymru | Business Wales

## Get involved

To ask us a question and for more information, you can contact us online, either at **BigIdeas.Wales** or **@BigIdeasWales** on Twitter. You can also get in touch with our team at Welsh Government by e-mailing **bigideas@gov.wales**

Our regional executives work with partners and educators to ensure the right Role Model is brought in to engage with the range of young people who can benefit from Big Ideas Wales support. You can contact our regional executives based across Wales at **enquiries@bigideas.com**

For young people who want to access the Big Ideas Wales support, visit **www.bigideas.wales** and sign up to our newsletter which keeps you up to date on news, events and opportunities to get involved.